



Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust



PROFFIL PLANHIGYN

**Coeden
lawrgeirios**

YMLEDOL

FFEITHIAU

ID

HELPWCH

TIPIAU

**MWY O
BROFFILIAU**

Disgrifiad o'r rhywogaeth


Enw gwyddonol:
Prunus laurocerasus

Brodorol i:
Gorynys y Balcan,
gorllewin y Cawcasws
a gogledd Iran.

Cronfa
Treftadaeth
Heritage
Fund



Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government



FFEITHIAU

ID

HELPWCH

TIPIAU

MWY O
BROFFILIAU

Ffeithiau diddorol

Effeithiau:

Mae'r goeden lawrgeirios yn tyfu'n gyflym ac yn ffurfio dryslwyni tew, gan rwystro planhigion eraill rhag cael golau ac atal coed rhag aildyfu mewn coetiroedd. Mae sbwriel dail yn asidig ac yn gwneud y pridd yn llai addas i rywogaethau brodorol.



Cynfin:

I'w weld mewn coetir a phrysg, ymyl y ffordd, gerddi preifat a gerddi cyhoeddus.



Llwyn mawr cryf bytholwyrdd neu goeden fach sy'n cael ei defnyddio'n aml fel perth neu orchudd gêm

Wedi'i gyflwyno i Brydain erbyn 1611 a'i ganfod yn y gwyllt erbyn 1886.

Sut mae'n lledaeniad:

Yn lledaenu trwy hadau sy'n cael eu cario gan y gwynt neu adar yn bwyta'r mwyaf ac yn gwasgaru hadau trwy eu baw. Hefyd yn lledaenu'n llystyfol gyda changhennau'n creu haenau ar y tir ac yn gwreiddio.

BRIG

FFEITHIAU

ID

HELPWCH

TIPIAU

MWY O
BROFFILIAU

Nodweddion adnabod allweddol



Dail lledraidd, gloyw, hirsgwar, bytholwyrdd hyd at 15cm o hyd gyda gwythiennau amlwg ac ymylon danheddog.



Mae mwyar yn datblygu yn niwedd yr haf gan aeddfedu o wyrdd i ddu tebyg i liw ceirios.



Clystyrau unionsyth o flodau gwyn i hyd at 12cm mewn hyd yn y gwanwyn.

BRIG

FFEITHIAU

ID


HELPWCH

TIPIAU

MWY O
BROFFILIAU


Gweithredu

Helpu i atal y lledaeniad



Tocio yn y gwanwyn i atal blodau rhag datblygu.


Mae torri pennau gwywedig ar ôl i flodau
bylu yn rhwystro mwyar rhag lledaenu.



Cael gwared ar blanhigion aeddfed
trwy balu, gan sicrhau eich bod yn
tynnu'r gwreiddiau.



Cael gwared ar eginblanhigion
drwy dynnu gyda llaw neu balu.



Mae'n well peidio â chompostio mwyar neu ddail adref, yn lle
hynny, defnyddiwch gyfleusterau gwastraff gardd y cyngor.

Archwiliwch ein hawgrymiadau ar
gyfer syniadau planhigion amgen.



BRIG

FFEITHIAU

ID

HELPWCH

TIPIAU

MWY O
BROFFILIAU

Cyngor defnyddiol

Deddfwriaeth

Heb ei restru ar ddeddfwriaeth fel rhywogaeth ymledol ar hyn o bryd.



Lawryf

Rhywogaethau tebyg:

Ni ddylid ei gymysgu gyda llawrwydden neu lawryf (*Laurus nobilis*) neu rhododendron (*Rhododendron ponticum*).



Celyn

Syniadau am blanhigion amgen

Brodorol

Celyn (*Ilex aquifolium*)

Yswyddden (*Ligustrum vulgare*)

Ffawyddden (*Fagus sylvatica*)

Anfrodorol

Oren Meccsico (*Choisya*)



Ffawyddden

BRIG